Polisi Amgylcheddol a Chynaliadwyedd

Cyngor Sir y Fflint

Cyflwyniad

Mae Cyngor Sir y Fflint wedi ymrwymo i ymgorffori gwelliannau amgylcheddol parhaus yn ei fodel busnes a'i ethos. Mae'n cydnabod pwysigrwydd y rôl hanfodol hon i ddatblygu stiwardiaeth amgylcheddol aelodau, gweithwyr ac ymwelwyr, ac i integreiddio egwyddorion cynaliadwyedd ymhob gweithgaredd.

Er mwyn parhau i reoli ein hagweddau, ein heffeithiau a'n peryglon amgylcheddol, rydym ni wedi ymrwymo i'r canlynol:

- Datblygu Strategaeth Cynaliadwyedd
- Sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau, rheoliadau a gofynion amgylcheddol eraill
- Meithrin agwedd ragweithiol i gynnal a gwella bioamrywiaeth yn Sir y Fflint
- Cynnal datblygiadau cynaliadwy a gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru
- Lleihau effaith negyddol y Cyngor ar newid hinsawdd drwy weithredu prosiectau amrywiol, gan gynnwys Cynllun Lleihau Carbon
- Lleihau gwastraff a hyrwyddo defnyddio adnoddau'n effeithlon
- Ystyried cynaliadwyedd wrth wneud penderfyniadau
- Annog gweithwyr i ddibynnu llai ar geir i deithio i ac o swyddfeydd, drwy hyrwyddo gweithio hyblyg, cyd-deithio ac ati
- Lleihau effaith amgylcheddol gweithgareddau caffael drwy brosesau caffael cynaliadwy
- Rheoli stad y Cyngor i greu a gwella cynefinoedd bywyd gwyllt drwy lunio a gweithredu Cynllun Cyflawni Dyletswydd Bioamrywiaeth
- Annog datblygu gweithgareddau gwirfoddoli corfforaethol i hyrwyddo ymwybyddiaeth a chyfrifoldeb amgylcheddol ymhlith staff, a galluogi unigolion i ddatblygu gwerthoedd, sgiliau a gwybodaeth i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy
- Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'n Polisi Cynaliadwyedd ac wedi ymrwymo i'w weithredu a'i wella
- Cyhoeddi adroddiad cynaliadwyedd blynyddol sy'n crynhoi ein perfformiad dan y polisi

Bydd sefydlu gweithgor cynaliadwyedd ar draws adrannau yn cefnogi'r gwaith o integreiddio cynaliadwyedd o fewn y Cyngor. Mae'r cyfrifoldebau a nodir yn y polisi yn berthnasol i bob aelod o staff ac aelod etholedig.